

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae'r pennaeth yn arweinydd egnïol a chydwybodol sy'n dylanwadu'n hynod effeithiol ar yr ysgol a'i chymuned. Ynghyd â'r dirprwy a'r staff, sy'n gweithio'n hynod llwyddiannus fel tîm, mae'n sicrhau bod yr ysgol hon yn darparu cymuned ddysgu effeithiol, gartrefol, deuluol a Chymreig i blant yr ardal. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn dda iawn. Mae staff yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio'r wybodaeth drylwyr sydd ganddynt am eu cynnydd i gynllunio'r camau nesaf iddynt. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac yn eu hannog i roi o'u gorau ym mhopeth a wnânt. Maent yn cynllunio profiadau gwerthfawr a phwrpasol iddynt, sy'n sicrhau eu bod yn mwynhau dysgu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn barhaus. Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol, ynghyd â nifer o fedrau eraill. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau digidol. Yn ogystal, nid ydynt yn annog disgyblion i ddefnyddio a datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach ac mae'n darparu cyfleoedd pwysig iddynt gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol, y gymuned leol ac yn ehangach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain yn aeddfed. Gwnânt hyn trwy gyfrwng yr ystod eang o gynghorau plant sydd gan yr ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau'n hyderus ac yn cynnig rhesymau synhwyrol dros wneud penderfyniadau penodol.

Mae gan arweinwyr berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol â nhw i'w galluogi i godi unrhyw faterion all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol, pan fo angen.

# Argymhellion

**A1** **Darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu pob agwedd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol**

**A2** **Sicrhau cyfleoedd rheolaidd ac addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 186 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 7.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.